# Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

## Cofnodion (CC(3)-06-10)

**Dyddiad: 22 Ebrill 2010**
**Amser: 12.43 – 14.08**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Sandy Mewies, Delyn (Cadeirydd)
Mohammad Asghar, Dwyrain De Cymru
Eleanor Burnham, Gogledd Cymru
Mark Isherwood, Gogledd Cymru
Bethan Jenkins, Gorllewin De Cymru
Dai Lloyd, Gorllewin De Cymru
Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Tom Jackson, Clerc
Sarah Bartlett, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Les Cooper – Cydlynydd Fforwm Gallu Ariannol Gogledd Cymru

### 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2Cafwyd ymddiheuriadau gan Lynne Neagle ac Alun Davies. Nid oedd dim dirprwyon.

### 2: Ymchwiliad i Gynhwysiant Ariannol ac effaith Addysg Ariannol – casglu tystiolaeth

Papurau: CC(3)-06-10 – Papur 1

2.1 Ymatebodd y tyst i gwestiynau gan y Pwyllgor.

### Cam i'w gymryd

Cytunodd y Clerc i gylchredeg copi o DVD i'r Aelodau, a gynhyrchwyd gan Barnardo's, sef 'Below the breadline: A year in the life of families in poverty - July 2009'.

2.2 Diolchodd y Cadeirydd i'r tyst am ddod i'r cyfarfod ac am ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig o flaen llaw.

**Sesiwn breifat**

### 3:  Blaenraglen waith y Pwyllgor

3.1 Yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi), penderfynodd y Pwyllgor drafod y mater hwn a'r eitemau canlynol mewn sesiwn breifat.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor ar y Flaenraglen waith.

3.3 Cytunodd y Clerc i gylchredeg manylion am ymweliad posibl i'r Aelodau.

3.4 Cytunodd y Pwyllgor i wahodd sefydliadau ychwanegol, a awgrymwyd gan yr Aelodau, i gyflwyno tystiolaeth i'r ymchwiliad ar gynhwysiant ariannol.

### 4: Ymchwiliad i wneud y gorau o ddigwyddiadau chwaraeon mawr – trafod themâu sy'n ymddangos

4.1 Cytunodd y Pwyllgor i drafod yr adroddiad drafft yn ei gyfarfod ar 20 Mai.

4.2 Cytunodd y Clerc i ailgylchredeg linc i ddogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru ar ddatblygu strategaeth digwyddiadau mawr i Gymru.

### 5: Crynodeb o Adroddiad ar Gyfiawnder Ieuenctid: Profiadau plant o Gymru yn yr ystâd ddiogel

5.1 Cytunodd y Pwyllgor ar grynodeb yr adroddiad.

5.2 Bydd yr adroddiad yn cael ei gylchredeg i'r ystadau diogel a gyflwynodd dystiolaeth i'r ymchwiliad.

5.2 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf a nodwyd y papurau.

5.3 Nododd y Cadeirydd y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 20 Mai.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Ebrill 2010**